LONDON 2012 PRE-GAMES TRAINING BOOST FOR PWLLHELI

Pwllheli Sailing Club - National Sailing Events Centre - has been included on the prestigious London 2012 Olympic Pre-Games Training Camp Guide.

The Guide, issued by the London Organising Committee of the Olympic Games and Paralympic Games, list venues chosen as potential pre-Games training locations.

Sporting facilities at over a 1000 venues were reviewed and the site on the Llŷn Peninsula is named as one of the sail training venues that will be offered to visiting teams before the big event. Each venue was subjected to an extremely rigorous evaluation process.

This is yet another accolade for the World renowned natural sailing conditions and superb facilities at Pwllheli. The Sailing Club has successfully hosted many World Championship and National Regattas whilst Pwllheli was also the chosen venue for the two Manchester Olympic bids.

The reputation of Pwllheli as a National Sailing Events Centre* continues to grow and the venue is identified in the 'UK Sport/RYA World Class Events Strategy (2006-2012)' for hosting major competitive dinghy sailing championships, the only location in Wales to receive this prestigious recognition.

Members of the GBR Olympic squad already train on the waters of Tremadog Bay and the facilities are in regular use by the RYA's GBR Youth and Junior squads together with Class Association squads.

Welcoming today's announcement, Pwllheli Sailing Club President, Richard Tudor said: "Pwllheli can offer unrivalled options as the sailing conditions at Pwllheli are similar to those that will be experienced at the Olympic Sailing venue in Weymouth. Our superb sailing waters, with limited tidal effect and a southerly aspect, will provide the best possible opportunities for coaches and Olympians to prepare. "

Alan Williams, Centre Manager at Plas Menai and a member of the RYA coaching team, said "This is fantastic news for Pwllheli, it is one of the best sailing venues in Britain and it will be great to see International teams training here."

***Note for Editors:**

Clwb Hwylio Pwllheli Sailing Club was founded in 1958 and has always taken a responsible role in promoting sailing and encouraging youngsters onto the water and this year celebrates 50 years of promoting the sport of Sailing. The present Club House was opened in 1997 and was developed as a Sailing Events Centre.

Pwllheli Sailing Club has, with assistance from The Welsh Assembly Government, employed the very capable Gareth Roberts as 'Training and Events Support Manager'. Gareth is today at the Dinghy Show promoting Pwllheli as an Events venue. He is also responsible for promoting and developing youth sail training at Pwllheli and is working on the 5 x 60 Schools scheme. He is also working with Plas Menai to offer outreach sailing sessions for young people.

The Sailing Club - National Sailing Events Centre works in close partnership with the Welsh Yachting Association, the National Watersports Centre of Plas Menai and with the Local Authority, Gwynedd Council.

Pwllheli Sailing Club's Events Centre is located adjacent to the excellent marine facilities at Hafan Pwllheli.

The Welsh National Watersports Centre at Plas Menai provides elite sail training at Pwllheli and from their dedicated centre at Plas Menai. They form part of the UK network of National Institutes of Sport.

The Pwllheli Sailing Club's National Sailing Events Centre works closely with, and is supported by the Royal Yachting Association (the UK Governing Body), the Welsh Yachting Association (the regional affiliated body), the Sports Council for Wales, Cyngor Gwynedd and the Welsh Assembly Government in developing the facility for world class competition and elite training.

Pwllheli Sailing Club and Cyngor Gwynedd are presently working in partnership to develop a World Class Sailing Academy which embraces the core elements of Education and Training, Events and Visitor Berths. An announcement will be made shortly regarding this exciting project.

Clwb Hwylio Pwllheli Sailing Club

Datganiad i'r wasg

PWLLHELI'N CAEL HWB HYFFORDDI CYN GEMAU OLYMPAIDD LLUNDAIN

Mae **Clwb Hwylio Pwllheli** – Y Ganolfan Hyfforddi Hwylio Genedlaethol – ar y rhestr ddethol yn y Cyfeirlyfr sy'n nodi'r mannau ymarfer posibl i baratoi ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain - y "London 2012 Olympic Pre-Games Training Camp Guide".

Bydd y cyfeirlyfr, sy'n cael ei ddarparu gan Bwyllgor Trefnu Llundain ar gyfer y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd, yn rhestru'r mannau a ddewiswyd fel darpar leoliadau i ymarfer a hyfforddi cyn y Gemau.

Edrychwyd ar dros 1000 o adnoddu chwaraeon ac y mae'r lleoliad yn Llŷn wedi ei enwi fel un o'r mannau ymarfer hwylio fydd yn cael eu cynnig i dimau tramor cyn y gemau mawr eu hunain. Cynhaliwyd proses werthuso eithriadol o drylwyr ar bob un lleoliad.

Mae hon yn bluen arall yng nghap Pwllheli sy'n cael ei gydnabod yn fyd-eang am fod i'r lleoliad amodau hwylio naturiol ac adnoddau gwych. Mae'r Clwb Hwylio eisoes wedi cael llwyddiannau drwy groesawu Pencampwriaethau Byd a Regatas Cenedlaethol a dewiswyd Pwllheli hefyd ar gyfer dau gynnig Manceinion am y gemau Olympaidd.

Mae enw da Pwllheli fel Canolfan Digwyddiadau Hwylio Cenedlaethol* yn parhau i gynyddu ac mae'r lleoliad yn cael ei gydnabod yn strategaeth Digwyddiadau Safon Byd yr 'UK Sport/RYA World Class Events Strategy (2006-2012)' fel lle i gynnal prif bencampwriaethau hwylio dingis, yr unig le yng Nghymru i gael i fath anrhydedd.

Eisoes mae aelodau'r sgwad "GBR" Olympaidd yn hyfforddi ym Mae Tremadog ac y mae'r adnoddau'n cael eu defnyddio'n rheolaidd gan sgwadiau Ieuenctid a Iau GBR yr RYA, ynghyd â sgwadiau'r "Class Association".

Wrth groesawu'r cyhoeddiad wnaed heddiw, dywedodd Llywydd Clwb Hwylio Pwllheli, Richard Tudor, "Mae Pwllheli'n gallu cynnig opsiynau diguro gan fod amodau hwylio ym Mhwllheli yn union fel rhai'r lleoliad hwylio Olympaidd yn Weymouth. Mae yma ddyfroedd hwylio ysblennydd, gydag ychydig iawn o ddylanwad y llanw, a rydan ni'n wynebu tua'r De, sy'n cynnig yr amgylchiadau gorau posibl i hyfforddwyr a chystadleuwyr Olympaidd ddod i baratoi."

Dywedodd Alan Williams, Rheolwr Canolfan Plas Menai ac aelod o dîm hyfforddi'r GBR Olympaidd, "Mae hyn yn newydd ffantastig i Bwllheli; dyma un o'r lleoliadau hwylio gorau drwy Brydain a bydd yn wych gweld timau Rhyngwladol yn dod yno i ymarfer."

*** Nodyn i Olygyddion:**

Sefydlwyd Clwb Hwylio Pwllheli ym 1958 ac mae bob amser wedi mabwysiadu swyddogaeth gyfrifol i hyrwyddo hwylio ac i ysgogi pobl ifanc i fentro ar y dŵr. Eleni mae'r clwb yn dathlu hanner canmlwydd o hyrwyddo'r gamp o hwylio. Agorwyd adeilad y Clwb presennol ym 1997 ac fe'i datblygwyd yn Ganolfan Digwyddiadau Hwylio.

Mae Clwb Hwylio Pwllheli, gyda chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi cyflogi'r medrus Gareth Roberts fel 'Rheolwr Hyfforddi a Chefnogi Digwyddiadau'. Heddiw, mae Gareth yn y "Dinghy Show" yn hyrwyddo Pwllheli fel lleoliad Digwyddiadau. Mae hefyd yn gyfrifol am hyrwyddo a datblygu hyfforddiant hwylio i ieuenctid ym Mhwllheli ac mae'n gweithio ar y cynllun Ysgolion 5 x 60. Mae hefyd yn gweithio gyda sefydliad Plas Menai i gynnig sesiynau hwylio allgymorth i bobl ifanc lleol.

Mae'r Clwb Hwylio – y Ganolfan Digwyddiadau Cenedlaethol - yn gweithio mewn partneriaeth agos â Chymdeithas Hwylio Cymru (Welsh Yachting Association), Y Ganolfan Genedlaethol Chwaraeon Dŵr ym Mhlas Menai a gyda Chyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lleol.

Mae Canolfan Digwyddiadau Clwb Hwylio Pwllheli wedi ei lleoli ar ymyl adnoddau morwrol ardderchog Hafan Pwllheli.

Mae'r Ganolfan Genedlaethol Chwaraeon Dŵr ym Mhlas Menai'n darparu hyfforddiant hwylio elît ym Mhwllheli ac o'u canolfan arferol ym Mhlas Menai. Maen nhw'n rhan o rwydwaith y Sefydliadau Chwaraeon Cenedlaethol drwy'r DU.

Mae Canolfan Digwyddiadau Cenedlaethol Clwb Hwylio Pwllheli yn cydweithio'n agos ac yn cael cefnogaeth gan y mudiad hwylio canolog, yr RYA (Royal Yachting Association – sef y Corff Rheoli drwy'r DU), Cymdeithas Hwylio Cymru, sef yr WYA (Welsh Yachting Association – sef y corff rhanbarthol), Cyngor Chwaraeon Cymru, Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn datblygu'r adnoddau i fod yn addas ar gyfer pencampwriaethau byd a hyfforddiant elît.

Ar hyn o bryd mae Clwb Hwylio Pwllheli a Chyngor Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu Academi Hwylio o Safon Byd fydd y cyfuno elfennau craidd Addysgu a Hyfforddi, Digwyddiadau ac Angorfeydd i Gychod ar Ymweliad. Bydd cyhoeddiad cyn hir am y prosiect cyffrous hwn.